

Nodiadau Fforwm Defnyddwyr Ogwen

22 Ebrill 2015 4.00y.h

Presennol

Edward Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Iwan Jones (cadeirydd)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Naomi Jones	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gwyn Thomas	Blaen y Nant
Jerome Paul Verbech	Idwal Cottage
Dewi Davies	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Guto Roberts	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Dewi Roberts	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Carys Dafydd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Rhys Evans	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Alison Cousins	Cyngor Cymuned Capel Curig
Andy Harbach	Tîm Achub Mynydd Ogwen
Arwel Johnston	Tenant
Edwina Johnston	Tenant
Catrin Williams	Cyfieithydd
Arthur Griffiths	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau

Emyr Williams; Paula Roberts; Gwydion Tomos; Mair Huws; Mal Creasey; Trystan Edwards.

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd a gofynnodd iddynt gyflwyno eu hunain.

2. Nodiadau'r cyfarfod diwethaf.

a. Cywirdeb y nodiadau tudalen 4 paragraff 4 - nodwyd mai Martin Doyle oedd wedi dweud bod yr adeilad yn edrych yn llwm ac anghrosawgar o'r tu allan. Tudalen 5 Unrhyw fater arall. Dywedodd Arwel Johnston mai'r hyn yr oedd wedi ei ddweud oedd bod mynediad at y rhaeadr wedi bodoli erioed yn hytrach na nad oedd mynediad at y rhaeadr erioed wedi bodoli.

b. Materion yn codi - ceir yn parcio ar y pafin. Roedd neges wedi dod gan lolo Tegid yn dweud bod nifer o swyddogion o'i adran wedi cael eu trosglwyddo i weithio'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Nid oedd yn gwybod os y fo fyddai'n gyfrifol am yr A5 yn ardal Ogwen yn y dyfodol, roedd wedi addo cysylltu cyn gynted ag y byddai'n gwybod pwy fyddai'n gyfrifol am yr ardal. Dywedodd Guto Roberts y byddai'n cysylltu hefo Huw a Gavin sy'n aml yn gwneud gwaith ffordd yn yr ardal i holi pwy oedd hefo cyfrifoldeb bellach am y darn yma o'r A5

Cafwyd trafodaeth ar y peryglon y mae'r ceir sy'n parcio ar y pafin yn ei achosi. Dywedwyd bod y sefyllfa'n ddrwg iawn dros y Pasg a bod ceir yn parcio ar ddwy ochr i'r ffordd yn golygu y byddai'n amhosibl i ddau fys basio. Awgrymwyd y byddai'n syniad tynnu lluniau o'r ceir ac y byddai hyn yn arf i geisio cael newidiadau. Dywedodd Gwyn Thomas bod ceir yn parcio ar y pafin hyd yn oed pan oedd y maes parcio yn wag - oherwydd nad oeddynt yn fodlon talu - roedd eraill yn parcio ar y manau pasio ar yr hen ffordd.

Dywedwyd i lolo Tegid, yn ystod ymweliad safle ddigwyddodd tua blwyddyn yn ôl wedi cynnig rhoi arwyddion 40 ar y ffordd.

Roedd anniddigrwydd ymhlith rhai o'r aelodau bod y mater parcio wedi ei godi nifer o weithiau o'r blaen ond nad oedd dim yn cael ei wneud i ddatrys y sefyllfa.

Cytunwyd bod Carys Dafydd yn cysylltu gydag lolo Tegid unwaith eto i drefnu cyfarfod arall gyda Guto Roberts, Dewi Davies, Gwyn Thomas, Rhys Evans, ac Arwel Johnston gydag un o gynllunwyr yr Awdurdod yn mynychu.

Addawodd Alison Cousins y byddai Cyngor Cymuned Capel Curig hefyd yn ysgrifennu llythyr yn mynegi eu pryderon am y sefyllfa

3. Diweddariad ar weithgareddau diweddar yn Ogwen, Guto Roberts, Partneriaeth Cwm Idwal.

- Fel rhan o ddatliadau Cwm Idwal yn 60 oed bu'r archeolegydd Yr Athro Ian Brooks yn ymweld â'r Cwm. Yn ffortunus roedd twrch daear wedi bod yn tyrchu yno ac wrth edrych drwy'r twmpathau pridd daeth ar draws darnau o gwards y credai eu bod wedi eu siapio er mwyn cael eu defnyddio i drin cig a chrwyn anifeiliaid. Cafodd y cwards eu danfon o ffwrdd i'w dilysu a'r canlyniad oedd eu bod yn perthyn i'r Oes Fesolithig hwyr tua 6 - 8 mil o flynyddoedd yn ôl , oes yr helwyr cyntaf ddaeth i'r cwm yn dilyn Oes yr Ia. Fe fydd astudiaeth bellach i anheddau yn yr ardal yn digwydd yn y dyfodol agos.
- Yn ystod yr Haf bydd Dinas Sain Bangor yn gyfrifol am osod taith sain o amgylch y Cwm. Rebeca Herciais yw'r artist sain sydd wedi ennill y comisiwn.
- Cafod astudiaeth o famaliaid bychain yn y cwm ei gynnal gan Brifysgol Bangor a chredir bod y diffyg coed yn y cwm yn deillio'n rhannol oherwydd bod y mamaliaid bychain yn bwyta'r rhisgl maethlon ar y coed ifanc.
- Mae pobl yn gwneud tyllau mewn ffensys er mwyn gadael i'w cwn fynd i redeg yn y cwm.. Gobeithir gallu gwella cyhoedduswydd i geisio cael perchnogion cwn i adael baw cwn ar y llwybrau, neu i adael bagiau baw cwn yn y cwm. Ar y cyd â Cadw Cymru'n daclus gobeithir cynnal ymgyrch gryfach eleni.

4. Y sefyllfa gyfredol ar y safle, Edward Jones APCE

- Bellach mae'r holl dystiolaeth sydd ei angen tuag at gael dynodiad dan system amgylcheddol BREEAM wedi dod i law. Mae'n edrych yn addawol i'r adeilad gael gradd 'Ardderchog'. Nid yw'r broses o gasglu tystiolaeth wedi bod yn hawdd - yn bennaf oherwydd bod rhai o'r cwmnïau oedd yn is-gontractio wedi mynd yn fethdalwyr.
- Mae'r 20% o'r rhai sy'n parcio yn talu gyda cherdyn - ac mae'r Awdurdod yn gobeithio ymestyn y system i feysydd parcio eraill.
- Yn ddiweddar mae nifer o doriadau i'r cyflenwad trydan wedi digwydd - gall hyn gael effaith niweidiol ar nifer o bethau gan gynnwys byrhau oes y bylbiau yn y projectors, problemau gyda'r ffôn, mae angen hefyd i'r dŵr gael ei drin yn barhaus. O ganlyniad mae'r Awdurdod wedi edrych ar ba gapasiti sbâr sydd yn y genadur.

- Mae bin ail gylchu ychwanegol wedi ei archebu ar gyfer dechrau'r tymor Gofynnodd Arwel Johnston os oedd modd cael mwy o arwyddion yn dweud bod modd talu am y parcio gyda cherdyn.

Holodd Gwyn Thomas beth pa ddefnydd oed yn cael ei wneud o'r arian parcio atebodd Edward Jones ei fod yn cael ei ddefnyddio tuag at gostau cynnal a chadw adeilad Ogwen yn ogystal â chostau cynnal a chadw llwybrau. Dywedodd Gwyn Thomas ei fod yn synnu bod pobl mor gyndyn o dalu - ac efallai y gallai arwyddion yn son be sy'n digwydd gyda'r arian wella hyn. Efallai hefyd ar adegau prysur y gellid defnyddio meysydd parcio gorlif. Atgoffodd Arwel Johnston bod codi'r adeilad newydd wedi golygu bod yr ardal wedi colli 20 o fannau parcio.

Dywedodd Edwina Johnston yr arferai arian o'r parcio fynd at gynllun Goriad Gwyrdd.

Aed ymlaen i siarad am golli'r bysus rhwng Bethesda a Llyn Ogwen , dywedod Alison Cousins bod yr un peth yn wir am Ddyffryn Conwy yn gyffredinol hefyd.

Am 5.00pm Gadawodd Jerome Verbech y cyfarfod oherwydd galwadau gwaith.

- Dywedodd Rhys Evans ei fod yn cytuno nad oedd digon yn digwydd ynghylch iechyd a diogelwch y safle, yn benodol y sefyllfa parcio ac y byddai ef yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu is bwyllgor i symud pethau yn eu blaen wrth ddisgwyl am argaeledd rhywun o'r asiantaeth cefnffyrdd.
- Cytunwyd hefyd bod Carys Dafydd yn danfon dyddiadau fyddai'n gyfleus i bawb i lolo Tegid gan obeithio y byddai un ohonynt yn gyfleus iddo ef neu os ddim ei fod yn gofyn i rywun arall o'r asiantaeth ddod allan.
- Cafwyd trafodaeth am y posibilrwydd o gael meysydd parcio 'gorlif' dros dro, er bod rhai yn dweud na fyddai hyn yn cael effaith ar y parcio ar y palmantau ar adegau prysur.
- Gofynnodd Edwina Johnston os oedd modd cael manylion cyswllt rhywun allai drwsio'r toiledau ar y penwythnos pan fyddant angen sylw. Hefyd dywedodd y byddai'n fuddiol i gael arwydd yn dweud nad oedd y toiled yn gweithio i'w osod ar y drws. Roedd cytundeb bod y toiledau yn blocio yn eithaf rheolaidd. Dywedodd Edward Jones y byddai'n danfon manylion cyswllt iddi.

5. Diweddariad ar ddehongli yn Ogwen – Naomi Jones.

- Mae llai o broblemau wedi bod yn ddiweddar hefo'r cyfrifiaduron a'r projectors.
- Criw wedi dod ynghyd yn ddiweddar i weld beth ellid ei wneud ynghylch y map 3d. Y cydsynio oedd mynd yn fwy 'lô-tec' - rhoi labeli enwau llefydd ar y model ei hun.
- Trafodwyd hefyd rhoi canopi uwchben y sgrin fawr fel bod modd gweld y ffilm pan oedd yr haul yn tywynnu - dyma'r opsiwn oedd yn cael ei ystyried gyntaf yn hytrach na chael sgrin deledu.
- Dywedodd bod rhaid bod yn ofalus gydag unrhyw newidiadau rhag difetha edrychiad y lle.
- Bydd cardiau adborth ar gael yn yr adeilad yn y dyfodol agos. Mae'r adborth hyd yn hyn wedi bod yn ffafriol - ond efallai y bydd yn haws i bobl fod yn fwy gonest ar bapur.
- Fe fydd adran newydd yn cael ei ddatblygu ar wefan y Parc hefo gwybodaeth am Gwm Idwal.

Dywedodd Arwel Johnston mai un o'r prif gwestiynau yr oedd pobl yn ei ofyn oedd - beth oedd yn yr Ystafell Ddehongli, aeth ymlaen i ddweud bod y ffilm dywyll ar y ffenestri yn gwneud i bobl feddwl bod y lle ar gau. Awgrymodd y byddai'n syniad cael arwyddion 'ar agor' ar baneli'r ffenestri neu ar y drws.

Dywedodd Guto mai un o'i ddyletswyddau am eleni fyddai datblygu pecyn addysg. Dywedodd bod ymateb da wedi bod gan golegau i'r taflenni ar ddaeareg y cwm sydd bellach ar gael - ond nododd eu bod braidd yn gymhleth at ofynion ysgolion.

Awgrymodd hefyd y byddai'n syniad ceisio cael copïau o hen ffilmiau Cymreig gyda chysylltiad hefo'r cwm er mwyn cael eu dangos ar y sgrin fawr.

Dywedodd Naomi Jones nad oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor ond y gallai cyllid fod yn broblem.

Ychwanegodd Alison Cousins nad oedd dim am hanes celf ac artistiaid yn y Cwm yn yr adeilad. Roedd wedi dod a dyfrlliw o Gwm Idwal gan Warren Williams i ddangos i'r Fforwm a dywedodd fod miloedd o luniau o'r ardal yn cael eu storio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

6. Diweddariad ar fwthyn Ogwen – Rhys Evans.

- Roedd ymateb gwych wedi bod i'r cais am bartneriaid i gyd-weithio hefo darparu gweithgareddau awyr agored. Dywedodd eu bod bellach mewn trafodaethau gydag un partner potensial ond nad oedd modd datgelu'r enw ar hyn o bryd.
- Mae'r staff arferai weithio yn Tan y Celyn bellach yn gweithio o Fwthyn Ogwen.
- Er hysbysebu am ddau geidwad i weithio'n dymhorol o Fwthyn Ogwen dim ond un fu'n bosibl ei chyflogi - bydd yn dechrau ar ei swydd yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn gweithio dros yr haf. Y bwriad gwreiddiol oedd adeiladu sied fechan ond oherwydd gwrthwynebiad Cyfoeth Naturiol Cymru - bydd yn rhaid defnyddio Gasebo fel cysgod. Bydd y Ceidwad yn gweithio fel pwynt cyswllt, gan roi gwybodaeth i ymwelwyr â'r Cwm.

Dywedodd Alison Cousins fod Cyngor Cymuned Capel Curig yn bryderus iawn ynghylch diffyg presenoldeb Wardeiniaid APCE ar y safle. Dywedodd ei bod yn synnu bod gwario wedi digwydd ar yr adeilad ond nad oedd rhywun yno i gyfarch yr ymwelwyr. Roedd Arwel ac Edwina Johnston yn cytuno hefyd gan ddweud bod ymwelwyr yn gofyn pob math o gwestiynau. Atebodd Dewi Davies mai diffyg cyllideb oedd y prif reswm pam nad oedd yn bosibl cael presenoldeb ar y safle drwy'r amser. Dywedodd hefyd bod natur gwaith warden wedi newid. Aeth ymlaen i ddweud bod Guto Roberts yno yn ystod yr wythnos a'i fod yntau yno ben bore fel arfer ac y byddai warden tymhorol yn dechrau'n fuan gan rannu ei h/amser rhwng Pen y Pas ac Ogwen. Roedd hyn ynghyd â'r ceidwad tymhorol oedd wedi ei benodi gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn sicrhau bod presenoldeb staff ar y safle ar adegau prysur.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00yh.